



## Astudiaeth Achos Kathryn Sharp

Mae gan Kathryn Sharp ei chwmni cyfieithu ei hun yng Ngogledd Cymru ac mae hi wedi bod yn dilyn cyrsiau Cyfieithu Ôl-radd TILT yn ddiweddar (2 Fodiwl sy'n 30 Credyd yr un). Dyma hi'n sôn sut mae TILT wedi bod o fudd iddi hi.

### A allwch chi roi amlinelliad byr o faes arbenigedd eich cwmni (neu'ch gwaith ar eich liwt eich hun?)

Rwyf yn y broses o sefydlu cwmni ymchwil a chyfieithu o'r enw Menter Miniog. Mae fy nghefndir yn y byd ymchwil ond trwy'r cwrs TILT rwyf bellach yn hyfforddi fel cyfieithydd.

### Sut berthynas oedd gennych â'r byd dysgu cyn dilyn y cwrs, ac a yw'r berthynas wedi newid wedyn?

Rwyf wedi treulio 10 mlynedd yn y byd addysg uwch, gan wneud gradd, gradd meistr a doethuriaeth, a gweithio fel ymchwilydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Rwyf bellach yn edrych ymlaen at gael newid a gweithio mewn maes gwahanol.

### Pa fudd fyddwch chi neu'ch cwmni yn ei gael o ddilyn y cwrs?

Mae'r cwrs yma wedi bod yn hynod fuddiol i mi, gan fy mod i'n eithaf newydd i'r byd cyfieithu. Mae'r tiwtor, Robat Trefor, a holl staff Canolfan Bedwyr wedi bod yn wych!

### Sut glywsocch chi am gyrsiau TILT?

Trwy chwilio am gyrsiau cyfieithu ar y we..

### Pam y bu ichi benderfynu cymryd rhan yn y cynllun?

Am fy mod i eisiau dysgu sut i fod yn gyfieithydd proffesiynol, ac am fy mod i'n eithaf newydd i'r maes, roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n bwysig i gael cymhwyster.

### Beth oedd y peth gorau am y cwrs y buoch chi arno?

Roedd y tiwtor, Robat Trefor, yn wych. Mae o'n hynod brofiadol, yn agored iawn i ateb fy holl gwestiynau, a dwi wedi dysgu gymaint ganddo. Roedd o'n hwyl cael cyfarfod pobl eraill sy'n cyfieithu hefyd.

### Yn eich barn chi, pa mor bwysig i'r economi yng Nghymru drwyddi draw yw cael cyrsiau wedi'u hariannu'n barod sy'n canolbwyntio ar fusnesau?

Hynod bwysig. Heblaw am yr arian gafodd ei gynnig i ariannu TILT, ni fyddwn wedi cael y cymhwyster hwn, ac mae gofyn am fwy o gyfieithwyr, yn enwedig yn y sector preifat.

### Pa gyngor fyddai gennych chi i fusnesau neu weithwyr ar eu liwt eu hunain sy'n meddwl dilyn cyrsiau TILT?

Ewch amdani! Mae hi'n gallu bod yn anodd cael yr amser i wneud y gwaith yn ogystal â gweithio, ond byddwch yn dysgu gymaint trwy fynychu'r cwrs.

Mae TILT yn rhan o'r Rhaglen Dysgu yn y Gweithle, a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Cydgyfeiriant Ewrop yr UE drwy Lywodraeth Cymru. Os hoffwch gael mwy o wybodaeth am y cyrsiau eraill a gynigir gan y project, cysylltwch â [s.gazzali@bangor.ac.uk](mailto:s.gazzali@bangor.ac.uk) neu ewch ar wefan TILT <http://www.tiltcymru.org.uk/wordpress/bangor/>